## Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 30 Medi 2025**
**yng Nghaffi Beca am 7.30pm**

**Yn bresennol:** Russell Davies (Cadeirydd), Rebecca Jaimangal-Jones (Is-gadeirydd), Anthony Jenner, Ffion John, Tudur Lewis, Julian Williams, Cyng Dorian Phillips, Janice Morgan (Clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Anthony Eynon, Dennis Jones, Michael Fussell

Croesawodd RD bawb i'r cyfarfod.

2. **Datganiadau o ddiddordeb:** Dim

3. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf 29/7/2025:**

- Cynigiwyd bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 29/7/25 yn gywir gan TL ac eiliwyd gan AJ.

**Materion yn codi o'r cofnodion:**

- **Cam gweithedu: Pawb i wrando ar y recordiad a darllen y cyflwyniad a chadarnhau mewn e-bost eu bod wedi gwneud.**
  Cadarnhaodd FfJ ei bod wedi mynychu hyfforddiant Cod Ymddygiad i Gynghorwyr. Bydd JM yn anfon y cyflwyniad a'r recordiad allan at bawb eto.

- **Cam gweithredu: DP i ddilyn lan arafwch torri'r cloddiau**
  Cadarnhawyd bod y cloddiau wedi cael eu torri erbyn hyn. Mae DP wedi dweud wrth y Cyngor bod angen gwneud y darn i lawr yng Nghwmiles.

- **Cam gweithredu: JM i roi copïau o fapiau'r llwybrau troed sy wedi cael eu hadfer ar y wefan a QR côd ar yr hysbysfyrddau**
  Dywedodd JM ei bod wrthi'n trefnu'r mapiau a'r wybodaeth i gyd ar hyn o bryd a bydd y rhain yn mynd ar y wefan o fewn yr wythnosau nesa.
  Riportiodd RD bod sawl coeden wedi cwympo ar lwybr troed Pantyrodyn a'i fod wedi cael gair gyda'r perchennog tir. Bydd y coed yn cael eu symud; mae'n dipyn o waith a bydd yn cael ei wneud pan fydd amser yn caniatâu.

4. **Gohebiaeth**

- Derbyniwyd llythyr yn gofyn am gymorth ariannol gan yr Urdd. Mae JM wedi anfon y y ffurflen gais atyn nhw.
- Anfonodd Jason Lawday, Swyddog Mynediad Cefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin Gorchymyn Gwyro Llwybr Cyhoeddus 2025 allan ar gyfer yr Ymghyngoriad terfynol ar 3/9/25. Rhannwyd hyn gyda'r Cyngor mewn e-bost. Mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â'r newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r llwybrau troed o dan prosiect grant SPF. Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau cyn 1/10/25.
- Mae JM wedi rhannu sawl ymgynghoriad/arolygon at aelodau'r Cyngor.
- Rhannwyd gwybodaeth am sesiwn hyfforddiant ar Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb 2025 gyda phawb.
- Rhannwyd gwybodaeth am ddyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru gyda phawb ar gyfer y tri mis nesa. Mae JM wedi cofrestru ar yr hyfforddiant Cyllid Modiwl 6 ar 15/10/25.

- Cadarnhaodd JM bod y ceisiadau canlynol wedi cael eu cyflwyno am gymorth ariannol ar gyfer 25/26:
  - Y Cardi Bach - £500
  - Cylch Meithrin Ffynnonwen - £2,000
  - Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen - £500
  - Eisteddfod y Garreg Las 2026 - £1,500
  - Marie Curie Hospice, Cardiff and the Vale – unrhyw gyfraniad

  Mae Ysgol Beca yn bwriadu gwneud cais a Chylch Cinio Llandisilio. Mae ffurflen gais hefyd wedi mynd i Eglwys Llanglydwen

  **Cam gweithredu: JM i anfon y ffurflenni cais at bawb ganol Tachwedd ar gyfer cyfarfod Tachwedd lle bydd y Cyngor yn eu hystyried am gymorth ariannol.**

**5. Diweddariad cyllid ac arwyddo sieciau**

- Cadarnhaodd JM mai'r balans yn ein cyfrif cyfredol ar 19/9/25 oedd £7,675.47.
- Derbyniwyd yr ail praesept ar 29/8/25 am £4,333.33.
- Derbyniwyd hawliad TAW o £565.78 ar gyfer y llynedd ar 16/9/25.
- Mae'r taliadau yn dilyn y cyfarfod diwetha i gyd wedi cael eu prosesu ond am ddwy siec sydd yn gyfanswm o £312.

- Arwyddo Sieciau:
  - Anfoneb Jamie King am reoli a diweddaru'r wefan am y cyfnod Hydref – Rhagfyr 2025: £150
  - Llogi Caffi Beca: £25
  - Taliadau o £175 i'w gwneud

  **Cam gweithredu: JM i fwrw ymlaen â'r trefniadau i allu gwneud taliadau BACS**

**6. Cynllunio**

- Cyflwynwyd un cais cynllunio ers y cyfarfod diwethaf:
  - PL/09787 – codi adeilad amaethyddol i ddarparu adeilad ar gyfer lloia a stoc ifanc yn Llandre Uchaf, Login, Hendygwyn-ar-Dâf SA34 0XA. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau.
- Adroddwyd bod cais cynllunio Pant-y-Blodau wedi cael ei dderbyn ar yr amod nad yw'r llwybr troed cyhoeddus ar bwys y datblygiad yn cael ei rwystro.
- Cadarnhaodd DP bod cais Llwynceirios ar gyfer y sied wedi cael ei basio erbyn hyn. Yn disgwyl clywed am gais cynllunio Rhosnewydd.

**7. Diweddariad y Cynghorydd Sir**

- Rhoddodd y Cyngh DP y diweddariad canlynol:
  - Mae DP wedi riportio cyflwr y ffordd ar bwys Eglwys Cilymaenllwyd a Rhos ac wedi gofyn i'r Cyngor Sir wneud gwaith cynnal a chadw o Rydymerydd i Ffynnonwen.
  - Mae DP wedi riportio'r broblem goryrru drwy Glandy Cross ac mae'r Cyngor Sir yn edrych i mewn i'r mater.
- Trafodwyd creu man tynnu mewn er diogelwch ar bwys carreg goffa Terfysg Beca.

  **Cam gweithredu: RD a DP i gwrdd ar bwys carreg goffa Terfysg Beca ddydd Llun nesa am 10yb i weld beth sydd angen o ran lle i dynnu mewn yn y lle cyntaf**
- Adroddwyd bod y ffyrdd dipyn yn well erbyn hyn.
- Mae'r domen sbwriel tu fas i dŷ yng Nglandy Cross wedi cael ei chlirio nawr.
- Camau gweithredu:
- DP i edrych mewn i Bryn Haul gan fod y tŷ wedi bod yn wag ers blynyddoedd ac mewn cyflwr gwael iawn.

- DP i edrych i mewn i'r pentwr teiars ar y chwith cyn y cyffordd Efailwen - Maenclochog.
- Adroddwyd bod camperfan dal yn parcio yn y layby bob hyn a hyn a bod dŵr o heol Clungwyn i'r sgwâr yn broblem pan mae'n bwrw dipyn.
- Bydd DP yn mynychu arddangosfa 'JCP Pothole Pro Machine' gyda'r Cyngor cyn bo hir.

**8. Iechyd, Diogelwch a Lles**

- **Cam gweithredu: JM i anfon dyddiad allan i rai Cynghorwyr gerdded llwybrau'r prosiect i weld a oes unrhyw beth sydd angen sylw.**

**9. Bioamrywiaeth**

- Cyflwynodd JM y cynllun gweithredu Bioamrywiaeth wedi'i ddiweddaru a chadarnhaodd fod copi wedi'i ddosbarthu i bawb cyn y cyfarfod i'w adolygu a rhoi sylwadau arno. Nododd JM fod y prosiect adfer llwybrau cyhoeddus wedi cyfrannu'n sylweddol at gynnydd nifer o'r camau gweithredu, yn cynnwys ymgysylltu â'r gymuned trwy deithiau cerdded misol, sesiynau hyfforddi bywyd gwyllt, a chydweithio â sefydliadau fel Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru, Cerddwyr Cymru, ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent. Cymeradwyodd y Cyngor y cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru.
  **Cam gweithredu: JM i ddrafftio'r adroddiad bioamrywiaeth blynyddol i'w gymeradwyo gan y Cyngor yng nghyfarfod mis Tachwedd.**

**10. Unrhyw Fater Arall**

- Diweddariad ar Bwyllgor Apêl Efailwen, Llanglydwen, Login, Cwmiles a Hebron: cynhaliwyd cyngerdd lwyddiannus iawn Nos Wener diwetha a chodwyd £1,395. Mae'r Pwyllgor Apêl bron a chyrraedd ei darged bellach. Cynhelir y cyfarfod nesa ym mis Tachwedd ac mae noson garolau gyda John S Davies yn Nebo ar Nos Sul 7/12/25.
- Capel Hebron: derbyniwyd diweddariad gan Bethan Rilstone yn dweud bod yr arwerthiant yn mynd mlaen yr wythnos hon. Mae diddordeb wedi bod ond nid oedd yn gwybod a oes cynnig pendant wedi cael ei gyflywno hyd yn hyn.
- Dywedodd JM bod y Grŵp Hanes Lleol a gynhelir ar y nos Iau cyntaf bob mis yng Nghanolfan Treftadaeth Y Cardi Bach yn parhau i fynd ond er mwyn denu mwy o ddiddordeb byddai gallu gwahodd siaradwr gwadd bob hyn a hyn yn fuddiol iawn. Does dim arian gan y grŵp hanes, felly a fyddai'r Cyngor yn fodlon ystyried talu am gostau cael un siaradwr gwadd yn y lle cyntaf i weld a fyddai hyn yn denu mwy o gynulleidfa. Cytunodd pawb â'r cynnig hwn.
  **Cam gweithredu: JM i roi gwybod i'r Grŵp Hanes Lleol bod y Cyngor wedi cytuno talu am siaradwr gwadd i roi cyflwyniad yn un o'u cyfarfodydd.**

**11. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** Nos Fawrth 25 Tachwedd 2025 am 7.30yh

*Daethpwyd â'r cyfarfod i ben gan y Cadeirydd am 8.30yh*

Arwyddwyd

Cadeirydd: T R Davies .................................................. Dyddiad: 25/11/2025